**Mark Drakeford AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MD/00285/18

Cynghorydd Annwen Hughes
Cadeirydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

20 Mehefin 2018

Annwyl Gynghorydd Hughes,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Mai ynglŷn â Dinasyddiaeth Gysylltiol yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Rydym yn gosod gwerth mawr ar y rhyddid a'r mynediad y mae dinasyddiaeth yr UE yn eu cynnig. Mae cadw mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl, gan gynnwys sicrhau bod dinasyddion Cymru yn gallu gweithio yn Ewrop, yn gwbl annatod i'n llewyrch yn y dyfodol. Yn ein dogfen *Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl*, rydym yn amlinellu dull hyblyg ond dan reolaeth o edrych ar fudo, gan greu cysylltiad agosach rhwng mudo a gwaith http://beta.llyw.cymru/brexit.

Ar ôl ymadael â'r UE, bydd sicrhau hawliau a statws gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a dinasyddion y Swistir yng Nghymru, a dinasyddion Cymru yn yr AEE, yn hanfodol bwysig. Mae diogelu'r un hawliau i ddinasyddion y DU, ac felly pobl Cymru, yn rhywbeth yr ydym yn parhau i ymbil ar Lywodraeth y DU i'w wireddu fel rhan o'r negodiadau Brexit.

Penodwyd Grŵp Cynghori Allanol gan y Prif Weinidog yn fuan ar ôl y refferendwm ym mis Mehefin 2016. Ym mis Gorffennaf llynedd, cyflwynwyd papur iddo ar *The Feasibility of Associate EU Citizenship for UK Citizens Post Brexit* a gomisiynwyd gan Jill Evans ASE, sef y papur y mae'r cynnig yn cyfeirio ato. Cynhaliwyd cyfarfod arall yn ddiweddar rhwng Jill Evans a Swyddfa Ewropeaidd Llywodraeth Cymru ym Mrwsel.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Wrth gwrs, gan mai Llywodraeth y DU sy'n llwyr gyfrifol am bolisi ar ddinasyddiaeth a mewnfudo, rydym ninnau wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau bod dinasyddion yr UE yn y DU, a dinasyddion y DU yn yr UE, yn cael cymaint o sicrwydd ag sy'n bosibl ynglŷn â'u hawliau a'u statws yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio mewn modd adeiladol gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys drwy'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) i'r perwyl hwn.

Yn gywir,

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance